



## Adroddiad Ymgynghori - Teithio Llesol Cyngor Sir Caerfyrddin Teithio Llesol: Map Rhwydwaith Integredig

Hydref 2017

Rhif y Prosiect:

Cyfeirnod y ddogfen:





Ad:

Y Cleient: Cyngor Sir Caerfyrddin

Dyddiad Cyhoeddi: Hydref 2017

Adroddiad Ymgynghori - Teithio Llesol

Cyngor Sir Caerfyrddin Teithio Llesol: Map Rhwydwaith Integredig

	Enw	Llofnod	Dyddiad
<b>Awdur</b>	Kate Hatton		26/10/2017
<b>Gwiriwr</b>	Martin Dolan		26/10/2017
<b>Cymeradwywr</b>	Cat Lloyd		26/10/2017
<b>Cyngor Sir Caerfyrddin (Derbyn ar ran y Cleient)</b>	Thomas Evans		26/10/2017

## Cofnod Cyhoeddi

Adol- ygu	Dyddiad	Disgrifiad/Sylwadau	Awdur/Paratowyd gan:	Cymeradwywyd i'w gyhoeddi gan:

"Mae'r adroddiad at ddefnydd preifat a chyfrinachol y cleientiaid sydd wedi gofyn amdano ac ni ddylid ei atgynhyrchu'n gyfan neu'n rhannol ac ni ddylai trydydd partïon ei ddefnyddio, at ba ddiben bynnag, heb ganiatâd ysgrifenedig, ffurfiol yr Ymgynghorydd"

## Cynnwys

	Rhagarweiniad	1
1.	2. Ymgynghori ag Ysgolion	3
	3. Digwyddiadau Ymgynghori	6
	4. Ymgynghori ar-lein ac ymatebion ychwanegol	8
	5. Map o Lwybrau Presennol (ERM) diwygiedig	16
	6. Casgliad	18

## Atodiadau

Atodiad A – Arolwg Ar-lein

Atodiad B – Adborth Fforwm Beicio Sir Gaerfyrddin

Atodiad C – Sylwadau Cyffredinol

# 1. Rhagarweiniad

## 1.1 Trosolwg

Fel rhan o Ddeddf Teithio Llesol (Cymru) 2013, sef y ddeddf sy'n ceisio'i gwneud yn haws i bobl gerdded a beicio yng Nghymru, mae'n ofynnol i Awdurdodau Lleol fapio'u llwybrau presennol a nodi ymhle y gellid gwneud gwelliannau ac ymhle y gellid ychwanegu llwybrau newydd fel rhan o'r cam 'Map Rhwydwaith Integredig' (INM). Diben yr ymarferion ymgynghori a grynoir yn yr adroddiad hwn yw helpu i nodi ymhle yr hoffai'r cyhoedd weld gwelliannau a llwybrau newydd, gan roi cyfle iddynt leisio'u barn ac ymwneud â'r gwaith o lunio darpariaeth teithio llesol Cyngor Sir Caerfyrddin yn y dyfodol.

Er mwyn dod i ddeall arferion cerdded a beicio pobl o bob cwr o Sir Gaerfyrddin, ac i gasglu eu barn am y llwybrau presennol, cynhaliwyd ymgynghoriadau helaeth, gan gynnwys y canlynol:

- Digwyddiadau ymgysylltu cymunedol yn Rhydaman, Caerfyrddin a Llanelli yng Ngorffennaf 2017, a digwyddiad ychwanegol yng Nghaerfyrddin ym mis Hydref 2017;
- Arolwg ar-lein rhwng canol dydd, dydd Gwener, 16 Mehefin 2017 a dydd Gwener, 8 Medi 2017, sef cyfanswm o 12 wythnos;
- Ymgynghoriadau â dwy ysgol uwchradd yng Ngorffennaf 2017.

## 1.2 Amlinelliad o'r Adroddiad

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi trosolwg cyflawn o'r ymgynghori a'r ymgysylltu a fu â rhanddeiliaid fel rhan o gam 'Map Rhwydwaith Integredig' Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013. Mae'n disgrifio pa faterion a fynegwyd gan ymatebwyr, a sut mae Cyngor Sir Caerfyrddin wedi ymateb i'r sylwadau hyn. Mae'r faterion a fynegwyd mewn ymateb i'r ymgynghoriad wedi'u trefnu yn ôl y dulliau ymgynghori a ddefnyddiwyd:

- Pennod 1: Cyflwyno'r adroddiad;
- Pennod 2: Trafod canlyniadau'r cyflwyniadau a'r gweithdai yn yr ysgolion uwchradd;
- Pennod 3: Trafod y digwyddiad ymgysylltu cymunedol;
- Pennod 4: Trafod canlyniadau'r ymgynghori ar-lein ac ymatebion ychwanegol;
- Pennod 5: Trafod y Map o Lwybrau Presennol (ERM) diwygiedig;
- Pennod 6: Casgliad, a chysylltu'r gweithgareddau ymgynghori â'r Map Rhwydwaith Integredig.

## 1.3 Strategaeth Ymgynghori

Cyfrannwyd at y broses ymgynghori mewn sawl ffordd. Roedd y rhain yn cynnwys y cyfarwyddyd o dan baragraff 3.2 o ganllawiau dylunio Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013, a chyngor gan Gyngor Sir Caerfyrddin ar sail profiad ei swyddogion o gynnal ymgynghoriadau.

## 1.4 Cyhoeddusrwydd

Er mwyn rhoi cyfle i unigolion gymryd rhan roedd Cyngor Sir Caerfyrddin wedi cyhoeddi mesurau drwy amryw o sianeli, gyda'r nod o sicrhau bod cynifer o bobl â phosibl yn ymwneud â'r ymgynghoriad. Roedd hyn yn cynnwys:

- Sicrhau bod y dogfennau ymgynghori a gwybodaeth arall am gynigion y map rhwydwaith integredig (INM) ar gael yn Gymraeg a Saesneg ar wefan ymgynghori:

<http://lleoli.sirgar.llyw.cymru/ymgynghoriadau>;

- Darparu copïau caled yn Gymraeg a'r Saesneg o lwybrau, arolygon a holl ddogfennau perthnasol yr INM, a hynny am 12 wythnos yn Neuadd y Dref yn Rhydaman, Neuadd Ddinesig San Pedr yng Nghaerfyrddin, Neuadd y Sir yng Nghaerfyrddin, Llyfrgell Llanelli a Neuadd y Dref yn Llanelli;
- Gwnaeth Cyngor Sir Caerfyrddin berchnogion tir lleol yn ymwybodol o'r ymgynghoriad drwy ei hyrwyddo ar ei wefan a thrwy'r digwyddiadau ymgysylltu â'r cyhoedd, a felly hefyd randdeiliaid eraill a phobl a oedd wedi gofyn am ragor o wybodaeth am Deithio Llesol.

Yn dilyn adborth ymgynghori gan aelodau lliwddall o'r cyhoedd, anfonwyd y mapiau at Swyddog Hygyrchedd Cyngor Sir Caerfyrddin i'w hadolygu. Trafodwyd y mapiau â'r Swyddog Hygyrchedd ac argymhellodd yntau newidiadau megis i'r modd y labelid y llwybrau, a lliwiau gwahanol i wneud y mapiau'n gliriach ac yn haws i bawb eu deall. Yn dilyn cyngor y Swyddog Hygyrchedd, rhoddwyd mapiau ar-lein a oedd yn fwy hygyrch o ran eu golwg a chynhaliwyd digwyddiad ymgysylltu ychwanegol yng Nghaerfyrddin.




## 2. Ymgynghori ag Ysgolion

Fel rhan o gam cyntaf yr ymgynghoriad ac er mwyn dod i ddeall y llwybrau cerdded a beicio a ddefnyddir gan blant ysgol yn Sir Gaerfyrddin, cynhaliwyd ymgynghoriad helaeth. Dewisodd Cyngor Sir Gaerfyrddin bum ysgol uwchradd yn ardaloedd trefol y sir i gymryd rhan yn y broses ymgynghori. Yr ysgolion uwchradd a ymatebodd ac a gymerodd ran yn y broses ymgynghori oedd:


- Ysgol Uwchradd y Frenhines Elisabeth; ac
- Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Myrddin.

Cafodd pob ysgol fapiau i dynnu llinellau ac i wneud sylwadau arnynt, gan ddangos yr ardal o gwmpas yr ysgol a llwybrau arfaethedig yr INM, fel y dangosir yn Ffigurau 2.1 a 2.2. Dadansoddwyd y mapiau a'r sylwadau ac mae'r adborth Teithio Llesol perthnasol wedi'i wahanu'n sylwadau cyffredinol a sylwadau ardal-benodol, isod.

**Ffigur 2.1 – Map Ymgynghori Ysgol Uwchradd y Frenhines Elisabeth**



**Ffigur 2.2 – Map Ymgynghori Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Myrddin**



Edrychwch ar y llwybrau cerdded a beicio ar y map a meddyliwch am unmyw newidiadau y gellid eu gwneud i'r llwybrau. Ysgrifennwch ar y map neu yn yr adran sylwadau.

- Meddyliwch am:**
- Unrhyw welliannau sydd ei angen i'r llwybrau ar y map i wneud cerdded a beicio i ysgol yn haws, er enghraifft goleuadau.
  - Newidiadau i leoliad y llwybrau ar y map i wneud cerdded a beicio i ysgol yn well.
  - Unrhyw llwybrau newydd a dylid eu hychwanegu i'r maps i wneud cerdded a beicio yn haws.

**Sylwadau:**

## 2.1 Y Canlyniadau

Gwahanwyd yr ymatebion yn rhai cyffredinol a rhai penodol, ac mae unrhyw lwybrau sydd wedi'u tynnu ar y mapiau wedi cael eu dadansoddi ar wahân. O ran pa mor addas ydynt i gael eu hychwanegu at yr INM, ystyriwyd y sylwadau hyn yn unol â'r Canllawiau Teithio Llesol ac o ganlyniad mae nifer wedi eu hymgorffori, fel y nodir isod.

### 2.1.1 Sylwadau Cyffredinol

Mae Tabl 2.1 yn crynhoi'r sylwadau cyffredinol a gafwyd o'r ymgynghoriad.

Yr ymateb mwyaf cyffredin oedd nad oedd digon o olau stryd ar y strydoedd a ddefnyddir gan y disgyblion i gerdded i'r ysgol. Roedd sylwadau eraill yn cynnwys mwy o lwybrau beicio, mwy o lwybrau cerdded, palmentydd llydanach a chroesfannau.

**Tabl 2.1 – Sylwadau Cyffredinol**

Sylwadau Disgyblion	Nifer y sylwadau
Mwy o oleuadau stryd	7
Croesfannau sebra	3
Croesfannau pelican	3
Mwy o groesfannau	3
Palmentydd llydanach	2
Grisiau ger B&Q	1
Camerâu cyflymder	1
Mwy o arwyddion	1
Mwy o farierau	1
Llwybr beicio gwell i'r ysgol	1

**2.1.2 Sylwadau Penodol**

Cafwyd nifer o sylwadau ardal-benodol sydd wedi'u crynhoi yn Nhabl 2.2.

Roedd y rhan fwyaf o'r sylwadau yn ymwneud â chroesfannau y tu fas i Ysgol Uwchradd y Frenhines Elisabeth ac ymestyn y llwybr i fyny Heol Ffynnon Job. Mae sylwadau penodol eraill wedi'u cynnwys yn y tabl isod.

**Tabl 2.2 – Sylwadau Penodol**

Sylwadau Disgyblion	Nifer y Sylwadau	Ymateb Cyngor Sir Caerfyrddin	Newidiadau i'r INM?
Croesfan sebra y tu fas i Ysgol Uwchradd y Frenhines Elisabeth (B4312)	5	Bydd llwybr arfaethedig C12 yn ystyried y mater hwn yn ei ddyluniad	Oes
Ymestyn y llwybr ar draws Heol Sanclêr ac i fyny Heol Ffynnon Job	2	Ymestyn C5 i fynd i'r afael â'r mater hwn	Oes
Dylid gosod wyneb newydd ar y ffordd gerdded a beicio o Dre Ioan	1	Aethpwyd i'r afael eisoes â'r mater ar yr INM drwy C9	Nac oes
Llwybr beicio o Gaerfyrddin i Cross Hands	1	Y tu fas i gwmpas Teithio Llesol	Nac oes
Mwy o lwybrau beicio sy'n arwain yn benodol i'r ysgol	1	Aethpwyd i'r afael eisoes â'r mater ar yr INM drwy C11, C12 a C14	Nac oes
Llwybr beicio ar hyd Rheilffordd Gwili i Gynwyl Elfed a lawr i Gaerfyrddin	1	Y tu fas i gwmpas Teithio Llesol	Nac oes
Llwybr i Landeilo ar hyd yr hen reilffordd	1	Y tu fas i gwmpas Teithio Llesol	Nac oes
Llwybr sy'n cysylltu ag Ysgol Bro Myrddin o'r A484	1	Wedi'i gynnwys ar INM C84	Nac oes



### 3. Digwyddiadau Ymgynghori

Hysbysebwyd y digwyddiadau ymgysylltu cymunedol gan Gyngor Sir Caerfyrddin ar ei wefan ac fe'u cynhaliwyd ar ddyddiadau amrywiol i alluogi cynifer o bobl â phosibl i fod yn bresennol. Cynhaliwyd cyfanswm o bedwar digwyddiad gyda'r nod o roi cyfle i'r gymuned leol ofyn cwestiynau am y broses, ac o gael eu hadborth ynglŷn â lle y gellir gwella'r llwybrau ac ymhle y dylid lleoli llwybrau newydd.

Cynhaliwyd digwyddiadau ymgynghori 'galw heibio' mewn tri adeilad cyhoeddus mewn amrywiol fannau yn Sir Gaerfyrddin, isod:

- Neuadd y Dref, Rhydaman – Dydd Llun, 10 Gorffennaf 2017, 9:30am – 4:30pm
- Neuadd Ddinesig San Pedr, Caerfyrddin – Dydd Mercher, 12 Gorffennaf 2017, 9:30am – 4:30pm
- Llyfrgell Llanelli – Dydd Mawrth, 18 Gorffennaf 2017, 9:30am – 4:30pm
- Neuadd Ddinesig San Pedr, Caerfyrddin – Dydd Mawrth, 17 Hydref 2017, 1.00pm – 4:00pm

Canolbwyntia'r sesiynau ar y tair ardal drefol fwyaf, sef y rheiny sydd fwyaf perthnasol, felly, i'r Ddeddf Teithio Llesol sy'n canolbwyntio ar siwrneiau defnyddiol. Yr ardaloedd hyn oedd â'r poblogaethau mwyaf yn Sir Gaerfyrddin felly roeddent yn cynnig y cyfle gorau i ymgysylltu ac ymwneud â charfanau amrywiol o bobl o gymharu ag ardaloedd eraill y sir.

Roedd yr ymwelwyr â'r digwyddiadau ymgysylltu cymunedol a fynegodd farn am y cynigion yn cael eu hannog i gyflwyno eu barn drwy'r arolygon a ddarparwyd yn y digwyddiad neu yn yr holiadur ar-lein a hysbysebwyd gan Gyngor Sir Caerfyrddin. Mae gweddill y bennod hon yn amlinellu'r materion a fynegwyd gan y rheiny a ymatebodd i'r ymgynghoriad a'r ymatebion iddynt.

Yn y digwyddiadau ymgysylltu cymunedol, darparwyd mapiau strategol a lleol dwyieithog ar fyrdau arddangos i roi rhagor o wybodaeth am y llwybrau presennol ac arfaethedig, ac roedd copïau caled o'r arolygon dwyieithog ar gael.

#### 3.1 Crynodeb o'r Adborth

Mae'r ymatebion a gafwyd i'r holiaduron wedi cael eu dadansoddi gyda'r ymatebion a gafwyd i'r holiadur ar-lein yn Rhan 4 isod.

Mae'r adborth penodol wedi cael ei adolygu ar y cyd â'r mapiau rhwydwaith integredig ac mae'r awgrymiadau wedi cael eu cynnwys, lle bo'n berthnasol, fel y nodir yn Nhabl 3.1.

Tabl 3.1 – Sylwadau Ymgynghorai

Sylwadau Ymgynghorai	Newidiadau i'r INM?	Ymateb Cyngor Sir Caerfyrddin
A yw'n bosibl cael llwybr drwy Sandy?	Oes	Mae llwybr newydd L14 wedi'i ychwanegu i fynd i'r afael â'r mater hwn
Hoffen i weld mwy o oleuadau ar hyd NCN4 o Benrhyn Machynys i Borth Tywyn	Nac oes	Mae'r llwybr yn cydymffurfio â chanllawiau dylunio Teithio Llesol ac wedi cael ei archwilio
Mae llwybr unffordd i'r gorllewin o L27. Gellid ei wneud e'n ddwyffordd	Oes	Mae llwybr L27 wedi'i ymestyn i gynnwys yr adran hon, i fynd i'r afael â'r mater hwn
Rhan gul ar L27, a fyddai llwybr 'rhannu defnydd' yn bosibl?	Nac oes	Mae llwybr L27 eisoes wedi'i gynnwys ar yr INM presennol fel llwybr 'rhannu defnydd', a bydd hyn yn mynd i'r afael â'r mater hwn
Hoffen i weld llwybr uniongyrchol o ganol tref Llanelli i Barc y Scarlets	Nac oes	Mae llwybr tymor byr L43 wedi'i gynnwys ar yr INM presennol i fynd i'r afael â'r mater hwn
Cysylltu Porth Tywyn a Chydweili, A484	Oes	Mae llwybr newydd BP16 wedi'i ychwanegu i fynd i'r afael â'r mater hwn
Llwybr ar hyd Heol y Fferi, Cydweili	Oes	Mae llwybr newydd K14 wedi'i ychwanegu i fynd i'r afael â'r mater hwn
Llwybr cyswllt drwy Rydaman i'r gorllewin o ST0100	Oes	Mae llwybr newydd A30 wedi'i ychwanegu i fynd i'r afael â'r mater hwn
Llwybr ar hyd yr A483, Rhydaman	Oes	Mae llwybr newydd A29 wedi'i ychwanegu i fynd i'r afael â'r mater hwn
Mae llwybrau A21 ac A22 ar hyd ffyrdd preswyl ac nid ydynt yn arwain i unrhyw le defnyddiol	Oes	Mae llwybrau A21 ac A22 wedi'u tynnu o'r INM i fynd i'r afael â'r mater hwn
Pam nad oes dim yn cael ei gynnig ar gyfer rhan Gwauncaegurwen?	Nac oes	Mae Gwauncaegurwen y tu hwnt i ffin Sir Gaerfyrddin
Pryder ynghylch diogelwch y groesfan i'r dwyrain o K7	Nac oes	Aethpwyd i'r afael eisoes â'r mater ar yr INM presennol drwy llwybr K7
Croesawu'r cynigion yn ardal yr ysbyty yng Nghaerfyrddin	Nac oes	Cydnabuwyd yr ymateb
Cyffordd anniogel lle mae'r C2 yn cwrdd â'r B4312.	Oes	Mae llwybr C12 wedi'i newid i osgoi'r gyffordd hon, i fynd i'r afael â'r mater hwn
Beth am gysylltu C79 ac C82 ar hyd Heol Login?	Nac oes	Mae Heol Login yn rhy gul i gynnwys llwybr Teithio Llesol. Cynigir ffyrdd eraill

## 4. Ymgynghoriad ar-lein ac ymatebion ychwanegol

Roedd cwestiynau'r arolwg ar-lein yn wahanol i'r rhai a ofynnwyd yng ngweithdai a chyflwyniadau'r ysgolion yn yr ystyr bod cwestiynau ychwanegol wedi'u cynnwys. Roedd y cwestiynau hyn yn canolbwyntio ar y llwybrau presennol ac yn caniatáu i'r rheiny a gymerodd ran nodi gwelliannau i'r llwybrau presennol a chynnig llwybrau newydd.

Mae'r adran isod hefyd yn cynnwys canlyniadau o'r ymatebion ychwanegol a gafodd Cyngor Sir Caerfyrddin drwy e-bost a thrwy'r arolygon a ddosbarthwyd ar bapur i dri adeilad cyhoeddus ar gyfer y cyfnod ymgynghori, mewn ymgais i ymgysylltu â phobl nad oedd yn gallu mynd ar y we:

- Neuadd y Dref, Rhydaman;
- Neuadd Ddinesig San Pedr, Caerfyrddin;
- Neuadd y Sir, Caerfyrddin;
- Llyfrgell Llanelli;
- Neuadd y Dref, Llanelli.

Roedd yr arolwg ar-lein yn fyw ar wefan Cyngor Sir Caerfyrddin am 12 wythnos. Mae copi o'r arolwg wedi'i gynnwys yn Atodiad A. Casglwyd y canlyniadau yn electronig, a chyflwynir dadansoddiad o ddata'r holiadur yn y bennod hon.

Nid yw canlyniadau rhai cwestiynau wedi cael eu cyflwyno am nad ydynt yn bwysig i'r adroddiad hwn, er enghraifft, manylion personol megis cyfeiriadau ac enwau.

### 4.1 Ymatebion Ychwanegol

Cafwyd ymatebion ychwanegol gan Fforwm Beicio Sir Gaerfyrddin - cyfarfu aelod o'r Cyngor â nhw'n bersonol i drafod ac adolygu. Caiff eu hadborth ei gynnwys ar fap yn Atodiad B ac mae'n cael ei drafod isod.

Ymgynghorwyd â Fforwm Beicio Sir Gaerfyrddin wrth ddatblygu mapiau yn ystod gwahanol gamau'r broses INM. Rhoddodd y Fforwm adborth ar yr holl ardaloedd trefol, gan amlinellu'r llwybrau yr oedd y Fforwm yn eu cefnogi ac unrhyw newidiadau a gynigiwyd ganddynt. Mae crynodeb o ymatebion Fforwm Beicio Sir Gaerfyrddin isod.

Roedd y Fforwm yn cefnogi cynigion yr INM yng Nghydweli, Llanymddyfri a Phorth Tywyn, gan nodi y dylid ystyried gwneud gwelliannau i'r seilwaith beicio yn achos pob prosiect sy'n ymwneud â phrifyrdd y sir. Derbyniwyd, ar y cyfan, y cynigion ar gyfer Sanctlêr a'r Hendy, yn amodol ar wneud mân newidiadau ac ychwanegu llwybrau. Cynigiwyd nifer o newidiadau i'r llwybrau yn Rhydaman a Cross Hands. Y ddwy ffordd newydd a gynigiwyd ar gyfer Rhydaman oedd llwybr ar hyd yr A483 o Landybïe, a llwybr i gysylltu'r coleg a'r orsaf reilffordd â llwybr glan yr afon. Roedd yr argymhellion ar gyfer Cross Hands yn bennaf yn ymwneud â chysylltu llwybrau penodol, megis ffordd gyswllt rhwng Cross Hands a Rhydaman, a hefyd newid rhai o'r amserlenni ar gyfer cynigion yr INM.

Roedd yr argymhellion ar gyfer Caerfyrddin yn cynnwys newidiadau i'r llwybr sy'n arwain i'r gorllewin o lôn depo BT, ac uwchraddio'r llwybr i Bencadlys yr Heddlu i fod yn un tymor canolig, ynghyd â newidiadau eraill i lwybrau. Roedd yr adborth ar gyfer Llanelli yn cynnwys newidiadau i bedwar llwybr, ac ychwanegu saith llwybr newydd i'r map. Roedd hyn yn cynnwys newid amserlenni nifer o gynlluniau i fod yn rhai tymor byr, megis y llwybrau o gwmpas y Ganolfan Lesiant, ynghyd â llwybrau strategol mwy syml i ganol Llanelli.

Adolygodd Cyngor Sir Caerfyrddin yr holl awgrymiadau a gafwyd yn sgil yr ymgysylltiad hwn ac addaswyd y mapiau yn unol â hynny.

Yn ogystal, adolygwyd gwybodaeth o Lyfrgell Alwadau Cyngor Sir Caerfyrddin, sy'n cynnwys yr holl geisiadau am waith ar y ffyrdd ac am lwybrau sy'n dod i law Cyngor Sir Caerfyrddin drwy gydol y flwyddyn. Mae'r canlyniadau hyn wedi cael eu hadolygu yn unol â'r cyfarwyddyd ac wedi cael eu hychwanegu at yr INM, lle bo'n briodol.

## 4.2 Canlyniadau i ddangos ym mhle'r oedd yr ymatebwyr yn byw

Cafwyd ymatebion gan breswylwyr mewn sawl gwahanol gymuned yn Sir Gaerfyrddin. Mae Tabl 4.1 yn crynhoi'r canlyniadau:

**Tabl 4.1 – Cymunedau'r ymatebwyr**

Cymuned	Atebion
Llanelli	25%
Caerfyrddin	25%
Cydweli	6%
Sanclêr	6%
Porth Tywyn	8%
Rhydaman	6%
Llandeilo	3%
Yr Hendy	6%
Sir Benfro	6%
Llansadwrn	3%
Pontypridd	3%
Gelli Aur	3%
Y Betws, Rhydaman	3%


### 4.3 Canlyniadau i ddangos pa mor aml mae ymatebwyr yn cerdded neu'n beicio

Mae graffiau 4.1 a 4.2 yn dangos yr ymatebion i'r cwestiwn 'pa mor aml ydych yn cerdded neu'n beicio yn eich cymunedau?'


Mae'r canlyniadau'n dangos bod yr ymatebwyr i gyd yn cerdded o leiaf unwaith yr wythnos, ac mae'r mwyafrif ohonynt yn cerdded naill ai bob dydd (70%) neu ddwy neu dair gwaith yr wythnos (28%).

Mae patrwm llai clir i'r canlyniadau ar gyfer beicio, ond yr ateb mwyaf poblogaidd oedd bod ymatebwyr yn beicio dwy neu dair gwaith yr wythnos (26%). Mae cyfran tebyg yn beicio naill ai'n llai aml nag unwaith y mis (22%) neu byth (17%).

**Graff 4.1 – Pa mor aml maent yn Cerdded**



**Graff 4.2 – Pa mor aml maent yn Beicio**






#### 4.4 Canlyniadau – pam nad yw ymatebwyr yn cerdded neu'n beicio

Gofynnwyd i ymatebwyr pam nad oeddent yn cerdded neu'n beicio yn eu cymunedau lleol. Dangosir y canlyniadau yn Graff 4.3. Yr ateb mwyaf cyffredin oedd y canfyddiad nad oedd llwybrau'n addas ac ymatebwyr ddim yn berchen ar feic (25%).


**Graff 4.3 – Rhesymau dros beidio â theithio'n llesol**



#### 4.5 Canlyniadau – Y newidiadau y gall Cyngor Sir Caerfyrddin eu gwneud i lwybrau cerdded a beicio yn yr ardal

Mae Graff 4.4 yn dangos y newidiadau a awgrymwyd ac y gellid eu gwneud.

**Graff 4.4 – Newidiadau Awgrymedig**



Dengys y canlyniadau mai'r ateb mwyaf poblogaidd (23%) oedd creu mwy o lwybrau oddi ar y ffordd. Newidiadau eraill a gafodd ymateb poblogaidd oedd mwy o lwybrau beicio ar y ffordd (16%), mwy o le i barcio beiciau (13%) a throedffyrdd glanach, heb annibendod (12%).

Mae awgrymiadau eraill, lle'r oedd ymatebwyr wedi ateb 'Arall', wedi'u cynnwys yn Nhabl 4.2 isod. Mae tabl llawn o sylwadau penodol yn Nhabl 4.3 ac mae tabl llawn o sylwadau cyffredinol yn Atodiad C.

**Tabl 4.2 – Newidiadau Awgrymedig ychwanegol**

Ymatebion Ychwanegol
Diffyg lle i barcio beiciau
Biniau baw cŵn ar lwybrau cerdded a beicio
Gwell wyneb ar y ffordd a phrif lwybrau sy'n addas i'r diben ac sy'n caniatáu i feicwyr gymudo'n fwy diogel mewn ardaloedd gwledig
Lonydd ar wahân i feicwyr, yn fwy penodol i lwybrau beicio ar y ffordd
Llyfrau ar lwybrau beicio / cerdded yn y sir, tebyg i lyfrau Cicerone

## 4.6 Canlyniadau – llwybrau newydd/ newidiadau i'r llwybrau presennol y gofynnwyd amdanynt

### 4.6.1 Sylwadau Penodol

Mae ymatebion penodol sy'n cyfeirio at lwybrau newydd sydd wedi cael eu hychwanegu at yr INM i'w cael isod yn Nhabl 4.3.

**Tabl 4.3 – Sylwadau penodol Ymgynghorai**

Sylwadau Ymgynghorai	Newidiadau i'r INM?	Ymateb Cyngor Sir Caerfyrddin
Llawer o faw cŵn/ Llystyfiant neu borfa yn gordyfu, weithiau'n gorfod mynd mewn un llinell ac mae'r llwybr yn 2 fetr o led	Oes	Newidiwyd llwybr C52 i fynd i'r afael â'r mater 'cynnal a chadw' hwn
Dolen gyswllt i Gydweli a'i hymestyn ar hyd hen Reilffordd Porth Tywyn a Chwm Gwendraeth i Bontyberem	Nac oes	Mae'r llinell ym meddiant Cymdeithas Reilffordd Cwm Gwendraeth – nid yw'n llwybr ymarferol ar gyfer yr INM
Darn tarmac, byr wrth ymyl y ffordd ddeuol i'r ddau gyfeiriad rhwng Caerfyrddin a Sanclêr	Nac oes	Mae hyn y tu hwnt i gwmpas Teithio Llesol ac ar gefnffordd
Golwg well wrth ddynesu at y llwybr sy'n mynd drwy'r danffordd a gwella wyneb y llwybr i Faes Parcio Sanclêr	Oes	Mae llwybr SC2 wedi'i newid i fynd i'r afael â'r mater hwn
Palmant Heol y Ffwrnais yn arwain i lwybr BP12	Oes	Aethpwyd i'r afael eisoes â'r mater ar yr INM drwy BP9. Wedi'i newid i Dymor Canolig
Wyneb gwell ar y llwybr sy'n arwain lawr i'r afon, rhwng y Santa Clara a'r Eglwys	Oes	Newidiwyd SC2 i fynd i'r afael â'r mater
Angen ei wella wrth Gylchfan Trostre: mae croesi honno ar gefn beic yn ofnadwy!	Nac oes	Aethpwyd i'r afael eisoes â'r mater ar yr INM drwy L29

Angen gosod wyneb newydd ar L28 – mae'n rhy anwastad i feiciau	Nac oes	Aethpwyd i'r afael eisoes â'r mater ar yr INM presennol drwy L28
--	---------	--

Angen llydanu'r palmant ger The Grange a rhoi mesurau arafu traffig yno. Mae'n beryglus.	Oes	Aethpwyd i'r afael eisoes â'r materion ar yr INM presennol drwy C35. Wedi'i newid i Dymor Byr
Croesfan ddiogel ar y briffordd rhwng y map o lwybrau presennol a'r L90	Oes	Mae llwybr newydd L91 wedi'i ychwanegu i fynd i'r afael â'r mater hwn
Angen gwell arwyddion i nodi'r llwybr gan ei fod yn croesi trwy ffarm.	Oes	Aethpwyd i'r afael eisoes â'r mater ar yr INM presennol drwy C4. Wedi'i newid i Dymor Byr
Ar wahân ac yn ddigon llydan i deithio dwyffordd. Mae'r mynedfeydd ar gylchfannau yn rhy agos, angen mynedfa raddol	Oes	Newidiwyd llwybr L80 i fynd i'r afael â'r materion hyn
Angen croesfannau tua'r gogledd a'r de ac i'r gwrthwyneb ar draws cyffordd Pemberton	Nac oes	Aethpwyd i'r afael eisoes â'r materion ar yr INM
Llwybr Presennol (NCN4) - Penrhyn Machynys a Pharc Gwyliau Gateway - wyneb y llwybr yn wael iawn, angen ei wella	Oes	Mae llwybrau newydd L92 ac L93 wedi'u hychwanegu i fynd i'r afael â'r materion hyn
L27 - llwybr ar un ochr o'r ffordd yn unig. Angen dau llwybr	Nac oes	Cydnabuwyd yr ymateb. Yn anffodus nid oes lle ar gyfer llwybr ar yr ochr arall.
C26 - annhebygol, ond byddai'n dda cael lôn feicio penodedig ar hwn (a llwybrau eraill gyda llaw)	Nac oes	Yn anffodus nid oes lle ar gyfer lôn feicio penodedig yma
SC2 - baw cŵn a glan yr afon yn erydu	Nac oes	Cydnabuwyd yr ymateb.
C52 - llystyfiant wedi gordyfu ac angen clirio ymylon y llwybr	Nac oes	Aethpwyd i'r afael eisoes â'r materion ar yr INM presennol drwy C52
Angen gwella'r ffens ble mae'r llwybr yn agos at y ffordd ddeuol, gan fod cŵn yn rhedeg yn rhydd.	Nac oes	Cydnabuwyd yr ymateb
Mynedfa oddi ar y brif ffordd. Nid wyf yn ei defnyddio o achos y drafferth o orfod gwyro	Nac oes	Cydnabuwyd yr ymateb
Llwybr troed i gysylltu Carwe â Thrimaran - mae pobl yn cerdded i'r siopau yn Nhrimaran a'r Cwrs Rasio yn Ffos Las.	Nac oes	Y tu fas i ardal adeiledig
Llwybr beicio ar hen Reilffordd Porth Tywyn a Chwm Gwendraeth i Bontyberem a Chwm-mawr.		Wedi'i gynnwys ar INM BP15
Cyswllt uniongyrchol o Lwybr Arfordirol y Mileniwm i Orsaf Reilffordd Cydweli a dolen gyswllt i hen Reilffordd Porth Tywyn a Chwm Gwendraeth i gynnwys pentrefi Cwm Gwendraeth a Thrafnidiaeth Gyhoeddus.	Oes	Mae llwybrau newydd K10 a K12 wedi'u hychwanegu i fynd i'r afael â'r materion hyn
Llwybr sy'n cysylltu Pantyffynnon a Phen-y-banc isaf drwy fynediad o ben pellaf Teras y Felin ym Mhantffynnon	Oes	Mae llwybr newydd A4 wedi'i ychwanegu i fynd i'r afael â'r materion hyn
Rwy'n beicio weithiau i'r gwaith ac adref, a ffordd ddeuol brysur yw'r llwybr o Gaerfyrddin i Sanclêr. Mae angen rhan darmac fach ar ymyl y ffordd ddeuol	Nac oes	Mae hyn y tu hwnt i gwmpas Teithio Llesol ac ar gefnffordd
Llwybr troed/llwybr beicio o Glwb Cychod Sanclêr i'r llwybr beicio presennol ar lan yr afon. Hefyd atal ceir rhag parcio ar y palmant ar Heol y Bont a gweithredu'r cyfyngiadau parcio	Oes	Mae llwybr newydd SC8 wedi'i ychwanegu i fynd i'r afael â'r materion hyn

Mynediad gwell i'r llwybrau troed ar hyd afon Tywi. Mae amryw o lwybrau anffurfiol ond ychydig iawn o hawliau tramwy ar hyd yr afon fendigedig hon.	Nac oes	Ymdrinnir â'r llwybrau hyn fel rhan o Lwybr Dyffryn Tywi
Mae llwybr yr A4138 o Allt i Dafen - Penyfan - eisoes yn y fan a'r lle felly dylai fod yn goch, nid glas. Nid yw llwybr Arfordir Cymru wedi'i farcio ar gyfer cerddwyr.	Nac oes	Aethpwyd i'r afael eisoes â'r materion ar yr INM presennol drwy lwybr L30
Llwybr Illtyd Sant a phob llwybr troed arall	Nac oes	Y tu fas i ardal adeiledig
Llwybr rhwng Heol Elim a Heol Trefechan sy'n cychwyn gyferbyn â chapel Elim.	Nac oes	Y tu fas i ardal adeiledig
Dylai fod llwybr di-gar o Fro Myrddin i ganol tref Caerfyrddin	Nac oes	Mae dolenni cyswllt wedi'u cynnwys eisoes ar yr INM.
Mae L80 yn gorffen wrth gylchfan yr ystad ddiwydiannol. Mae angen iddo fynd heibio i Dyfed Steels i brif gylchfan Dafen. Mae potensial ar gyfer estyniad ar ffurf llwybr dwyffordd neu lôn ar wahân	Nac oes	Aethpwyd i'r afael eisoes â'r mater ar yr INM drwy lwybr L83
1. Sanclêr i Gaerfyrddin - mae'r llwybr uchelgeisiol yn cael ei nodi'n unig ar fap Sanclêr ac nid yw'n cysylltu â map Caerfyrddin drwy Fancfelin. Byddai hyn yn helpu i gyfrannu at ddolen gyswllt uchelgeisiol, o'r dwyrain i'r gorllewin, rhwng Caerfyrddin a Hendy-gwyn ar Daf drwy gyfrwng y llwybrau beicio sy'n bodoli eisoes tua Sanclêr.	Oes	Bydd llwybr estynedig SC7 yn mynd i'r afael â'r mater hwn. Cadarnheir manylion y cynllun hwn yn amodol ar drafodaethau â Llywodraeth Cymru
2. Cydweli i Gaerfyrddin. Cyfle am lôn 'beicio gyfeillgar' wrth ochr yr A484, sy'n cael ei chynnal a'i chadw a chydag arwyddion e.e. Llandyfaelog i Amgueddfa Cydweli / Heol Llangadog.	Oes	Mae llwybr newydd K13 wedi'i ychwanegu i fynd i'r afael â'r mater hwn
3. Sanclêr: Gerddi Manor Daf / Clwb Cychod Sanclêr i Dŷ'r Gate: Uwchraddio'r llwybr troed hawl tramwy cyhoeddus i fod yn llwybr beicio gydag arwyddion. Byddai hyn yn fodd o fyrhau rhan fawr o'r llwybr anuniongyrchol.	Oes	Mae llwybr newydd SC8 wedi'i ychwanegu i fynd i'r afael â'r materion hyn
4. Mae'r mynediad i'r llwybr cyhoeddus sy'n cysylltu Pen-y-banc a Phantffynnon wedi'i gau am resymau nad oes modd eu cyfiawnhau a dylid ailagor yr hawl tramwy cyhoeddus	Oes	Mae llwybr newydd A4 wedi'i ychwanegu i fynd i'r afael â'r materion hyn
Wyneb gwell ar hyd y llwybr troed o Glwb Cychod Sanclêr fel y gall cerddwyr a beicwyr ddefnyddio'r llwybr yn fwy aml. Atal ceir rhag parcio ar balmentydd.	Oes	Newidiwyd SC2 i fynd i'r afael â'r mater
Tynnwch linell syth o lwybr troed 72/22 i 36/104 – dyma ymhle y dylech adeiladu lôn feicio/llwybr cerdded; gosodwch oleuadau ar draws yr A484, byddai hyn yn cysylltu dwy ran feicio Penyfan gyda'r llwybr newydd a adeiladwyd yn ddiweddar ar yr A4138 ac, ar yr un pryd, yn osgoi Cylchfan Trostre yn llwyr.	Oes	Mae llwybr newydd L94 wedi'i ychwanegu i fynd i'r afael â'r mater hwn
Fel sylw wrth basio, a fyddai'n bosibl, yn hytrach na chael y llwybrau beicio ar hyd y ffyrdd, i ychwanegu llwybr newydd i ddilyn y rheilffordd i Landeilo o'r Bynea er mwyn creu llwybr cylchol o Lanelli i Landeilo i Gaerfyrddin i Gydweli i Borth Tywyn ac yn ôl i Lanelli?	Nac oes	Ymdrinnir â nhw fel rhan o Lwybr Dyffryn Tywi
Llwybrau beicio wrth ochr y ffyrdd i alluogi beicwyr i gymudo yn ôl ac ymlaen, er enghraifft, ar ochr yr A40 o Gaerfyrddin i Sanclêr ac yn ôl.	Nac oes	Mae hyn y tu hwnt i gwmpas Teithio Llesol ac ar gefnffordd



Sicrhau bod pob llwybr yn ddi-gar. Dylai canol Caerfyrddin fod yn ddi-gar.	Nac oes	Cydnabuwyd yr ymateb
--	---------	----------------------

Rhaid torri'r porfa'n fwy mynych; ar hyn o bryd mae wedi gordyfu dros lwybr newydd yr A4138. Sicrhau bod yr holl lwybrau'n ddigon llydan. Arwyddion efallai, i annog gyrwyr sy'n pasio i'w defnyddio?	Nac oes	Cydnabuwyd yr ymateb
Mynediad gwell i lwybrau ym Myddfai	Nac oes	Y tu fas i ardal adeiledig

#### 4.6.2 Sylwadau Cyffredinol

Mae'r ymatebion cyffredinol parthed y llwybrau wedi cael eu crynhoi yn Nhabl 4.4 a'u categorioedd yn ôl themâu. Ceir rhestr lawn o'r ymatebion yn Atodiad C.

**Tabl 4.4 – Sylwadau cyffredinol**

Sylwadau	Canran
Cynnal a chadw'r ffyrdd	29%
Darparu biniau baw cŵn a biniau sbwriel	17%
Gwell arwyddion	17%
Cysylltu llwybrau â rhai presennol	8%
Llwybrau di-gar	4%
Gwell dilyniant o ran llwybrau	4%
Llwybrau ar is-ffyrdd	4%
Mwy o lefydd parcio beiciau a chyfleusterau	4%
Gweithredu er mwyn cadw beicwyr oddi ar balmentydd	4%
Llwybrau 'rhannu defnydd' neu lonydd beicio	4%
Gosod wyneb newydd	4%

## 5. Map o Lwybrau Presennol diwygiedig

Fel rhan o broses nodi'r Map Rhwydwaith Integredig (INM), nodwyd nifer o lwybrau presennol ychwanegol. Cafodd y llwybrau hyn eu harchwilio a'u cynnwys ar y mapiau i ymgynghori yn eu cylch.

O ganlyniad, mae 56 o lwybrau wedi cael eu hychwanegu at y Map o Lwybrau Presennol a gyflwynir i Lywodraeth Cymru am gymeradwyaeth. Mae'r llwybrau hyn wedi'u cynnwys yn Nhabl 5.1 isod.

**Tabl 5.1 Llwybrau ERM diwygiedig**

Rhif y Cynllun	Lleoliad	Math	Manylion
A6	Rhydaman	Cerdded	Troedffordd gyswllt a gwell mynediad i gerddwyr. Cadarnheir manylion y cynllun hwn yn amodol ar drafodaethau â Llywodraeth Cymru.
A8	Rhydaman	Cerdded	Troedffordd gyswllt a gwell mynediad i gerddwyr
A15	Rhydaman	Cerdded	Troedffordd gyswllt a gwell mynediad i gerddwyr
A23	Rhydaman	Cerdded	Troedffordd i gysylltu â chanol y dref
A26	Rhydaman	Beicio	Llwybr Beicio Dyffryn Aman drwy Lanaman
B6	Brynaman	Beicio	Llwybr Beicio Dyffryn Aman heibio Brynaman
BP4	Porth Tywyn	Cerdded	Troedffordd gyswllt o ffordd feicio Pen-bre i'r orsaf, drwy Deras Seaview
BP8	Porth Tywyn	Cerdded	Dolen gyswllt i'r ysgolion, oddi ar y ffordd
BP13	Porth Tywyn	Cerdded	Troedffordd gyswllt ar Heol y Ffatri dros bont y rheilffordd
BP14	Porth Tywyn	Beicio	Beicio oddi ar y ffordd/cyfleusterau 'rhannu defnydd' i'r gogledd o Borth Tywyn
C5	Caerfyrddin	Cerdded	Troedffordd i gysylltu â chyrchfannau lleol ar hyd Heol Ffynnon Job
C7	Caerfyrddin	Cerdded	Llwybr troed - oddi ar y ffordd - i gysylltu ag ardal breswyl
C8	Caerfyrddin	Cerdded	Darpariaeth well i gerddwyr gan gysylltu ag Ysgol Tre Ioan
C10	Caerfyrddin	Cerdded	Darpariaeth well o ran troedffordd ar hyd Heol Allt-y-cnap
C16	Caerfyrddin	Rhannu Defnydd	Y llwybr presennol - oddi ar y ffordd - i Tesco
C17	Caerfyrddin	Cerdded	Dolen gyswllt â'r ERM ar hyd Maes-y-Dderwen
C18	Caerfyrddin	Beicio	Llwybr presennol ar y ffordd ar hyd Lôn y Briciard.
C20	Caerfyrddin	Beicio	Dolen gyswllt â ffordd fynediad Tesco.
C22	Caerfyrddin	Beicio	Dolen gyswllt rhwng y rhwydwaith presennol a chanol y dref
C24	Caerfyrddin	Cerdded	Dolen gyswllt rhwng Heol Parcmaen a Rhodfa Dewi Sant - y de
C27	Caerfyrddin	Cerdded	Dolen gyswllt rhwng Heol Parcmaen a Rhodfa Dewi Sant - y gogledd
C31	Caerfyrddin	Cerdded	Dolen gyswllt rhwng Ffordd y Coleg a Nant yr Arian
C33	Caerfyrddin	Cerdded	Nant yr Arian i Drem y Coleg
C34	Caerfyrddin	Cerdded	Trem y Coleg - dolen gyswllt oddi ar y ffordd
C37	Caerfyrddin	Cerdded	Hafod Elfed i Deras Russell
C39	Caerfyrddin	Cerdded	Heol Pentrefelin i Heol y Bragdy
C40	Caerfyrddin	Cerdded	Cilgant Myrddin i Deras Waterloo
C43	Caerfyrddin	Cerdded	Heol Awst - ffordd ganol dref sy'n cysylltu â siopau
C45	Caerfyrddin	Cerdded	Heol Las - ffordd ganol dref sy'n cysylltu â siopau
C46	Caerfyrddin	Cerdded	Heol Las i Heol y Cei
C47	Caerfyrddin	Cerdded	Heol y Capel i Heol y Gwyddau - ffordd ganol dref sy'n cysylltu â siopau
C50	Caerfyrddin	Cerdded	Heol y Brenin i Heol Spilman - y de

C51	Caerfyrddin	Cerdded	Heol y Brenin i Heol Spilman - y gogledd
C71	Caerfyrddin	Cerdded	Llwybr troed Heol Llangynnwr i gysylltu â'r ffyrdd cyswllt presennol i'r orsaf
C72	Caerfyrddin	Cerdded	Heol Llangynnwr i Lôn Penymorfa - llwybrau oddi ar y ffordd i gysylltu â'r ysgol
C73	Caerfyrddin	Cerdded	Llwybr troed dwyrain Heol Llangynnwr i gysylltu â'r ffyrdd cyswllt presennol i'r orsaf
C74	Caerfyrddin	Beicio	Llwybr beicio Hen Heol Llangynnwr i gysylltu â'r ffyrdd cyswllt presennol i'r orsaf
C76	Caerfyrddin	Cerdded	Lôn Penymorfa i Ros Las - llwybrau oddi ar y ffordd i gysylltu â sefydliadau addysgol
C80	Caerfyrddin	Cerdded	Y Talar i Heol Blaengwastod - dolen gyswllt i gerddwyr oddi ar y ffordd
C84	Caerfyrddin	Beicio	A484 De Caerfyrddin - dolen gyswllt i feicwyr
CH14	Cross Hands	Rhannu Defnydd	Tanffordd yn cysylltu â siopau
CH29	Cross Hands	Cerdded	Dolen gyswllt bresennol i gerddwyr i safleoedd gwaith
CH31	Cross Hands	Cerdded	Heol Hendre i Heol Cwper - troedffyrdd sy'n cysylltu â chyrchfannau lleol yng Nghapel Hendre
LL2	Llanymddyfri	Cerdded	Troedffyrdd cyswllt ar hyd Ffordd y Frenhines
LL3	Llanymddyfri	Cerdded	Troedffyrdd cyswllt ar hyd Stryd Lydan/Sgwâr y Farchnad.
LL4	Llanymddyfri	Cerdded	Troedffyrdd cyswllt o gwmpas canol y dref - Stryd Cerrig
L32	Llanelli	Cerdded	Troedffordd ar Ffordd y De
L33	Llanelli	Cerdded	Troedffordd ar Ffordd y Gogledd
L40	Llanelli	Cerdded	Gwelliannau i'r droedffordd o amgylch Parc Adwerthu Pemberton
L41	Llanelli	Cerdded	Gwelliannau i'r droedffordd o amgylch Parc Adwerthu Pemberton
Q	Llanelli	Rhannu Defnydd	Llwybr 'Llwybrau Diogel i'r Ysgol'. I gerddwyr yn wreiddiol, bellach yn llwybr 'rhannu defnydd'
L69	Llanelli	Rhannu Defnydd	Llwybrau Diogel i Ysgolion - Lôn yr Ysgol
L71	Llanelli	Cerdded	Gwelliannau i droedffordd Heol Havard yng nghyffiniau Capel/Dafen
79	Llanelli	Rhannu Defnydd	Llwybr 'Llwybrau Diogel i'r Ysgol'. I gerddwyr yn wreiddiol, bellach yn llwybr 'rhannu defnydd'
L80	Llanelli	Rhannu Defnydd	Heol Llethri - llwybr 'rhannu defnydd'
L82	Llanelli	Cerdded	Troedffordd ar hyd Heol Llethri

## 6. Casgliad

Roedd yr ymgynghoriadau yn ddull hollbwysig o ymgysylltu â'r cyhoedd ac o roi cyfle i unigolion fynegi eu barn a chyfrannu at y gwaith o lunio'r Map Rhwydwaith Integredig ledled Sir Gaerfyrddin.

Roedd gwahaniaeth rhwng canlyniadau'r ymgynghoriad yn yr ysgolion a'r canlyniadau a gafwyd yn sgil y digwyddiadau ymgynghori cyhoeddus a'r arolygon ar-lein. Roedd canlyniadau'r ymgynghoriad ysgol wedi nodi mai'r prif ffactor sy'n atal teithio llesol i'r ysgol ac oddi yno oedd diffyg goleuadau stryd. Hefyd mynegodd y disgyblion y byddent yn croesawu mwy o groesfannau diogel.

Roedd yr ymgynghoriad â'r cyhoedd, rhanddeiliaid a thrigolion yn sgil y digwyddiadau a'r arolygon wedi tynnu sylw at y ffaith mai'r prif ffactor sy'n rhwystro teithio llesol i'r ymatebwyr hyn yw diogelwch teithio llesol, llwybrau anaddas a llwybrau sydd wedi'u harwyddo'n wael, yn ogystal â sut yr edrychir ar ôl y llwybrau presennol a'r llwybrau arfaethedig.

Roedd y cwestiynau penagored a ofynnai am llwybrau newydd ac am awgrymiadau o ran gwelliannau wedi helpu i gyfiawnhau cynnwys rhai llwybrau ac wedi arwain at gynnig llwybrau newydd, lle bônt yn ymarferol. Cafwyd gwybodaeth ynghylch newidiadau a fyddai'n annog pobl i gymryd rhan mewn teithio llesol, ynghyd â gwybodaeth ynghylch ymhle'r oedd angen dolenni cyswllt newydd. Roedd y wybodaeth hon o gymorth i leoli llwybrau a dolenni cyswllt ac o ran awgrymu gwelliannau i'r llwybrau.

I gloi, mae'r adroddiad ymgynghori hwn wedi bod yn gynhwysol ac wedi ystyried y rhesymau yn fanwl, gan roi ymatebion i'r prif bryderon a fynegwyd. Lle bo'n briodol, darparwyd gwybodaeth esboniadol a lliniarol a thynnwyd sylw at y ffyrdd y gellid diwygio'r cynlluniau yng ngoleuni'r ymatebion a ddaeth i law.

O ganlyniad i'r gweithgareddau ymgynghori, mae Cyngor Sir Caerfyrddin wedi ychwanegu'r llwybrau newydd canlynol i'r INM:

- A4 - Llwybr sy'n cysylltu Pantyffynnon a Phen-y-banc isaf;
- CH10 - dolen gyswllt Parc Coetir y Mynydd Mawr;
- C85 - Llwybr uchelgeisiol 'rhannu defnydd' i gysylltu ag ochr ddwyreiniol ffordd gyswllt newydd Gorllewin Caerfyrddin;
- L91 - Gwella diogelwch wrth groesi'r B4297;
- L94 - Cysylltu dwy ran feicio Pen-y-fan ar draws yr A484 ar ôl i'r llwybr newydd gael ei adeiladu'n ddiweddar ar yr A4138, gan osgoi Cylchfan Trostre yn llwyr;
- L92 – Gosod wyneb newydd ar yr ERM ger Parc Gwyliau Gateway;
- L93 – Gosod wyneb newydd ar yr ERM heibio Penrhyn Machynys;
- K10 - Cyswllt uniongyrchol o Lwybr Arfordirol y Mileniwm i Orsaf Reilffordd Cydweli;
- K12 – Dolen gyswllt i Borth Tywyn;
- K13 - Cyfle am lôn 'beicio gyfeillgar' wrth ochr yr A484, Cydweli i Gaerfyrddin;
- H6 - Ffordd yn cysylltu'r Hendy a Llangennech;
- SC8 - Llwybr troed/llwybr beicio o Glwb Cychod Sanctlêr i'r llwybr beicio presennol ar lan yr afon.



Yn ychwanegol i'r llwybrau newydd, mae Cyngor Sir Caerfyrddin wedi addasu'r llwybrau canlynol o ganlyniad i'r ymgynghoriad:

- BP12 - Wedi'i newid i Dymor Canolig;
- C52 - Cynnal a chadw llystyfiant sy'n tyfu'n wyllt;
- C83 - Newid yr aliniad;
- C35 - Wedi'i newid i Dymor Byr;
- C4 - Wedi'i newid i Dymor Byr;
- L80 - Yn ddigon llydan ar gyfer teithio dwyffordd;
- L27 - Newid yr aliniad;
- L39 - Newid yr aliniad;
- SC2 - Golwg well wrth ddynesu at y llwybr sy'n mynd drwy'r danffordd a gwella wyneb y llwybr i Faes Parcio Sanclêr;
- SC7 - Wedi'i newid er mwyn cysylltu drwy Fancfelin.

# Atodiad A – Arolwg Ar-lein

## Holiadur - Arolwg Ar-lein y Map Rhwydwaith Integredig

1 Ym mha gymuned rydych yn byw?

Rhydaman	Porth Tywyn	Caerfyrddin	Cross Hands
Cydweli	Llanymddyfri	Llanelli	Pontarddulais
Sanclêr	Arall		

2 Pa mor aml ydych yn gwneud y gweithgareddau canlynol yn eich cymuned?

	Cerdded	Beicio
Bob dydd		
2-3 gwaith yr wythnos		
Unwaith yr wythnos		
2-3 gwaith y mis		
Unwaith y mis		
Yn llai aml nag unwaith y mis		
Byth		

3 Os ateboch 'byth' i gwestiwn 2, rhowch eich rhesymau dros beidio â cherdded / beicio yn eich cymuned leol:

Y Tywydd	Iechyd
Llwybrau anaddas	Prinder amser
Ffitrwydd	Nid wyf yn berchen ar feic
Diffyg lle i barcio beiciau	Rwy'n teithio gydag eraill sydd ddim yn cerdded nac yn beicio
Arall (rhowch fanylion isod)	

Arall: \_\_\_\_\_

4 A oes unrhyw newidiadau y gallai Cyngor Sir Caerfyrddin eu gwneud a fyddai'n eich annog i gerdded/beicio mwy yn y dref/pentref lle'r ydych yn byw, neu yng nghyffiniau'r lle hwnnw? Dewiswch bob un sy'n berthnasol:

Traffig arafach	Palmentydd lletach
Mwy o lwybrau beicio ar y ffordd	Mwy o oleuadau
Mwy o lwybrau beicio oddi ar y ffordd	Mwy o groesfannau i gerddwyr
Mwy o lefydd i barcio beiciau	Troedffyrdd glanach, heb annibendod
Arall (rhowch fanylion isod)	Dim byd

Arall: \_\_\_\_\_

5 A ydych yn defnyddio'r llwybrau sydd wedi eu dangos ar y mapiau?

Ydw	Nac ydw
-----	---------

6 Os ateboch 'Nac ydw' i gwestiwn 5, esboniwch pam.

---

---

---

7 Os ateboch 'Ydw' i gwestiwn 5, a oes angen unrhyw welliannau / newidiadau i'r llwybrau a nodir ar y mapiau? Nodwch rif y llwybr, lle bo'n bosibl.

Rhif y Llwybr	Sylwadau

8 A oes unrhyw lwybrau cerdded / beicio ychwanegol y credwch eu bod yn cael eu defnyddio'n aml ac y dylid eu cynnwys ar y mapiau?

Oes	Nac oes
-----	---------

9 Os ateboch 'oes' i gwestiwn 8, a allwch ddisgrifio lleoliadau'r llwybrau ychwanegol?

---

---

---

10 A oes unrhyw newidiadau y gallai Cyngor Sir Caerfyrddin eu gwneud i'r llwybrau ychwanegol hyn?

---

---

---

Rhowch eich enw a'ch cyfeiriad e-bost, efallai y byddwn yn cysylltu â chi am ragor o wybodaeth.

Enw	
Cyfeiriad e-bost	

## CYDRADDOLDEB

Mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn awyddus i sicrhau bod ei rwydweithiau teithio llesol yn hwylus i bob defnyddiwr. Byddwch cystal ag ateb y cwestiynau canlynol er mwyn i ni fedru deall eich amgylchiadau personol yn well. Bydd data'r atebion hyn yn cael eu cadw'n ddi-enw i sicrhau cyfrinachedd.

### Oedran:

- Dan 16
- 17 – 29
- 30 – 45
- 46 – 59
- 60+
- Byddai'n well gennyf beidio â dweud

### Rhyw:

- Gwryw
- Benyw
- Arall .....
- Byddai'n well gennyf beidio â dweud


### Oes gennych chi anabledd?

- Oes
- Nac oes
- Byddai'n well gennyf beidio â dweud
- Nodwch natur eich anabledd.....

# Atodiad B – Adborth Fforwm Beicio Sir Gaerfyrddin



# Map 1 Llanelli




- C--J** Ardaloedd Adedldg / Built Up Areas
- Llwybrau Presennol / Existing Routes
- INM Tymor Byr / Short Term
- INM Tymor Canolig / Medium Term
- Corido Uchelgeisiol / Aspirational Corridors

Contains OS Data © Crown copyright and database right (2017)



# Map 1 - Llanelli



— Ardaloedd Adeiledig / Built Up Areas  
— Llwybrau Presennol / Existing Routes  
— INM Tymor Byr / Short Term  
— INM Tymor Canolig / Medium Term  
— Corido Uchelgeislol / Aspirational Corridors

Contains OS Data © Crown copyright and database right (2017)

n Llwchwr



# Atodiad C – Sylwadau Cyffredinol

Sylwadau Cyffredinol
Mae'r map yn ddryslyd, yn enwedig am nad oes modd ei chwyddo; rwy'n credu fy mod i wedi dewis yr un cywir.
Yr holl ffyrdd beicio o gwmpas Llanelli, Pen-bre ac ati.
Eu glanhau'n amlach
Mae angen clirio'r llwybrau beicio wrth ymyl y briffordd yn rheolaidd – daw tameidiach arnynt o'r heol.
Darparu biniau baw cŵn neu finiau sbwriel
Biniau baw cŵn
Rhaid i lwybrau fod yn ddi-gar
Angen gwell arwyddion ar ambell i lwybr.
Darparu biniau baw cŵn neu finiau sbwriel
Rydym yn seiclo ac yn cerdded yn aml yn yr ardaloedd uchod i gyd; dyma'r tair sydd yn gyfleus i ni
Mwy o finiau, mae'n ofnadwy cymaint o sbwriel sydd ym mhobman
Heb gyfeirio at lwybr penodol, mae angen llwybrau sy'n cysylltu â'r llwybrau presennol
Darparu biniau baw cŵn neu finiau sbwriel
Angen dilyniant heb fod angen croesi ffyrdd prysur
Mae Sir Gâr yn frith o is-ffyrdd oddi ar brif ffyrdd y traffig. Gallaf gadarnhau fod y rhain yn adnodd gwych i ni feicwyr yn y sir. Mae'n bosibl teithio o Cross Hands i'r Bynea ar hyd is-ffyrdd (a llwybrau beicio) heb ddod ar draws prin unrhyw riwiau. Gellir dweud yr un peth am deithio i fyny cwm Gwendraeth Fach. Mae'r llwybrau hyn yn ddelfrydol yn eu hunain a gallant ddenu twristiaid beicio i'r ardal.
A484 Cwmdwad, Cynwyl, Bronwydd – Caerfyrddin a rhagor!
Myddfai
Arwyddion ffyrdd
Mwy o lefydd i barcio beiciau (dan gysgod) a Mapio Rhyngweithiol Ar-lein
Atal beicwyr rhag defnyddio palmentydd – mae hynny'n beryglus
Gofyn i feicwyr am gyngor am lwybrau oherwydd doedd pwy bynnag wnaeth y llwybr beicio i Sanclêr yn amlwg ddim yn feiciwr!!!
Torri'r porfa a'r coed, mae angen gwneud hynny'n druenus yr holl ffordd o Frynman i Rydaman. Darparu biniau – mae problem sbwriel am nad oes unman i'w roi. A warden cŵn i gadw llygad – mae'r holl faw ci yn ffiadd!
Glanhau baw ci
Paidio gadael i gŵn redeg yn rhydd a dal pobol sydd yn taflu bagiau baw cŵn yn y clawdd
Cyfeirio pobl yn well drwy arwyddion
Darparu arwyddion a'u cadw'n glir yn yr haf h.y. torri tyfiant.
Eu cysylltu â'r llwybrau beicio cenedlaethol
Llwybrau 'rhannu defnydd' neu lonydd beicio
Gwneud yn siŵr nad ydynt yn dadfeilio
Ie, gwella wyneb rhai llwybrau a chreu rhai llwybrau newydd.

Mae marchnata yn bwysig, yn lleol ac ar ddeunydd hyrwyddo i ymwelwyr; mae arwyddion hefyd yn hanfodol. Sicrhau bod llwybrau yn cael eu goleuo'n ddigonol, yn enwedig yn ystod misoedd y gaeaf (yn y bore ac yn hwyr y prynhawn) a'u bod yn lân, heb faw cŵn.

We | Listen Create Deliver

[www.capita.co.uk/property](http://www.capita.co.uk/property)